**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

11 Rhagfyr 2017

Annwyl Vaughan

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**

Rwyf yn ysgrifennu i ofyn am eglurhad ynglŷn â'r gwaith mae Prifysgol Sheffield yn ei wneud ar hyn o bryd o ran diweddaru ei ddadansoddiad o effeithiau wedi'u modelu Isafbris am Alcohol Nghymru. Yn y sesiwn briffio technegol a ddarparwyd gan eich swyddogion ar 25 Hydref ac yn eich llythyr dyddiedig 14 Tachwedd, dywedwyd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y cyhoeddir yr adroddiad llawn sy'n manylu ar y dadansoddiad diweddar hwn ym mis Ionawr 2018. Fodd bynnag, yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 7 Rhagfyr gwnaethoch nifer o gyfeiriadau at yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror:

> "As you'll be aware, the original 2014 modelling that was done for the draft Bill in the last term of the Assembly set out the impact of minimum unit prices in 5p increments from between 35p to 70p. The update of that work is due to be published early in the new year. I've been given a note saying we expect it to be in February next year. So, that will be available and it will help to inform our approach to setting a minimum unit price here."

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Ionawr yn hanfodol i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon allu craffu ar y Bil gan fod y Pwyllgor wedi'i gyfarwyddo i gwblhau ei waith craffu erbyn 16 Chwefror 2018.

Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu rhoi eglurhad ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**